LGBC8M/2001

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD IAU 23ain AWST 2001 AM 10.00 am YN NHY CARADOG, 1-6 ST. ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Yn bresennol:

Comisiwn

Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)
Mrs S Smith (Aelod)

Ysgrifenyddiaeth

Mr E Lewis (Ysgrifennydd)
Mr S Halsall
Mr D Carr

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mrs B Delacruz

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mrs Delacruz i'r cyfarfod.

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 9fed Mai 2001.

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

2. Materion yn codi.

2.1 Nododd yr Ysgrifennydd ei fod yn dal i aros am ymateb gan Edwina Hart AC o ran Ffiniau'r Siroedd a Gadwyd.

2.2 Nododd Mrs Smith fod ymweliad swyddogol y Gweinidog Harry Woods â'r Comisiwn ar 17 Gorffennaf 2001 wedi mynd yn dda iawn ac wedi cynnwys cyflwyniad a thrafodaeth o waith y Comisiwn a chyfnewid rhoddion.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Llangollen (diweddariad llafar).

3.1 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cwrdd â Gareth Thomas AS, Chris Ruane AS a Ms Anne Jones AC ar safle'r Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Ddinbych ar 9fed Awst 2001. Yr oeddent wedi ei hysbysu nad oeddent yn dymuno gweld newid i'r ffin bresennol gan eu bod o'r farn y gallai olygu goblygiadau niweidiol i Sir Ddinbych. Beth amser ar ôl y cyfarfod hwn derbyniodd lythyr gan Ms Karen Sinclair AC yn dweud ei bod yn ymwybodol bod y cyfarfod wedi'i gynnal ac yn datgan pryder. Atebodd y Cadeirydd bod y Comisiwn yn fwy na pharod i gwrdd â'r holl bartïon oedd yn rhan o'r arolwg ac estynnodd gynnig i gwrdd â hi.

i) Ymweliad safle 17 – 19 Gorffennaf 2001

3.2 Nododd Mr Halsall bod yr Ysgrifenyddiaeth, gyda swyddogion o'r Arolwg Ordnans, wedi cynnal ymweliad safle i edrych ar y ffin i'r gogledd o Landysilio. Nodwyd sawl ardal lle y gellid gwneud gwelliannau i aliniad presennol y ffin. Dim ond os byddai'r ffin gymunedol hon hefyd yn dod yn brif ffin yr awdurdod y byddai angen ei newid ar frys. Pe byddai'n parhau i fod yn ffin gymunedol yna byddai llythyr yn cael ei anfon at Gyngor Sir Dinbych yn awgrymu eu bod yn cynnal arolwg ohoni maes o law.

ii) Adroddiad Cynigion Drafft

3.3 Cytunwyd ar yr adroddiad Cynigion Drafft yn amodol ar rai mân newidiadau.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn ardal Cymuned Clunderwen.

4.1 Nododd Mr Halsall yr anfonwyd llythyrau at bartïon â diddordeb yn gwneud cais am awgrymiadau ar gyfer ffin amgen i'r gorllewin o Efailwen. Derbyniwyd sawl awgrym a byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cynnal ymweliad safle ag Efailwen er mwyn edrych ar yr awgrymiadau hyn ar 13 Medi 2001.

5. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Geredigion a Sir Benfro yn ardal Cymuned Llandudoch.

5.1 Nododd yr Ysgrifennydd bod Rita Hale wrthi'n cynhyrchu astudiaeth ar honiadau Cyngor Sir Ceredigion y byddai eu tâl cymunedol yn codi pe byddent yn colli Llandudoch.

5.2 Nododd Mr Halsall y gohiriwyd cyhoeddi cofnodion mis Mawrth y Comisiwn oherwydd cyfeiriadau at arolwg Llandudoch. **Cytunwyd** y dylid bellach cyhoeddi cofnodion mis Mawrth.

6. Arolwg Cymuned Sir Ddinbych – Y Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan a Dyserth.

6.1 Nododd Mr Halsall bod yr arolwg cymuned hwn yn ymddangos yn gymharol syml. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cynnal ymweliad safle o'r ardal cyn gynted â phosibl.

7. Cyllid – Adroddiad ar y Gyllideb ar gyfer Gwariant chwarter Cyntaf 2001/02.

7.1 Nododd Mr Carr fod gwariant y Comisiwn ar gyfer chwarter cyntaf 2001/02 ymhell o fewn y gyllideb.

8. Rhyddid Gwybodaeth.

8.1 Nododd yr Ysgrifennydd y byddai angen i'r Comisiwn benderfynu pa wybodaeth i'w chyhoeddi ac ar ba fformat. Byddai angen llunio cynllun a'i ddilyn gydag adroddiadau blynyddol. Nododd nad oedd LGBC wedi'i gynnwys yng nghynllun y llywodraeth.

9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf.

9.1 **Cytunwyd** y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Celtic Royal, Caernarfon, ar 4 Hydref 2001 am 4.30 pm.

10. Unrhyw Fater Arall.

10.1 Nododd yr Ysgrifennydd bod tywydd garw yn ystod yr ymweliad safle diweddar â Llangollen wedi dangos bod diffyg offer addas ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath. **Cytunwyd** y byddai offer i amddiffyn rhag tywydd garw yn cael ei brynu ar gyfer staff y Comisiwn.

10.2 Byddai'r Comisiwn yn cwrdd ag Edwina Hart AC ar 5 Medi 2001. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn drafftio llythyr at Ms Hart AC yn rhestru'r pynciau yr hoffai'r Comisiynwyr eu trafod yn ystod y cyfarfod.